LLEWYRCHED FELLY EICH GOLEUNI

# Y Llusern

Eglwys Ebeneser Rhagfyr 2022 Cyfrol 93 Rhif 6


## Daeth Goleuni

Arwydd clir fod y Nadolig yn agosáu yw bod goleuadau yn cael eu gosod ar ein strydoedd ac yn ein tai. Mae hyn yn addas gan fod y 25ain o Ragfyr yn dilyn cyfnod tywyllaf y flwyddyn. Nid addurniadau yn unig yw'r goleuadau, y mae iddynt hefyd arwyddocâd symbolaidd. Mae hanes y Nadolig yn llawn gwirioneddau ysbrydol ond ni ellir eu deall yn iawn oni bai ein bod yn sylweddoli hyn, fod y byd yn lle tywyll.

Ond sut mae'r byd yn llawn tywyllwch? Yr hyn mae'n golygu yw bod y byd yn llawn drygioni a dioddefaint enbyd. Ystyriwch y cyfnod y ganwyd Iesu iddo, roedd yn gyfnod treisgar, llawn anghyfiawnder, tlodi a digartrefedd, cyfnod lle'r oedd ffoaduriaid yn rhedeg rhag gorthrwm pwerau grymus a lle'r oedd plant yn cael eu cam-drin. Mae'n swnio'n debyg i 2022.

Ffordd arall y mae'r byd yn dywyll yw oherwydd nad oes neb yn gallu delio gyda'r drygioni a chael gwared â'r hyn sydd o'i le arnom un waith ac am byth.

Ar gychwyn ei Efengyl mae Mathew yn dyfynnu o Eseia 9: 1-2 pan ddywed, "Mae'r bobl oedd yn byw mewn tywyllwch wedi gweld golau llachar; ac mae golau wedi gwawrio ar y rhai sy'n byw dan gysgod marwolaeth." - Mathew 4:16




Neges fawr y Nadolig yw nid "fe allwn ni fel dynoliaeth greu byd sy'n llawn cyfiawnder, undod a heddwch trwy ymdrech." I'r gwrthwyneb, rhan o neges y Nadolig yw na allwn newid ein

Trosodd

(O dud.1.) sefyllfa trwy ein gallu ein hunain; ni all system wleidyddol, syniadaeth athronyddol, addysg, gwyddoniaeth na thechnoleg ein hachub o’n hargyfwng. Rydym angen goleuni o’r tu allan i ni ein hunain sy’n mynd i ddelio gyda’r tywyllwch sydd ynom. Duw yn unig all wneud hynny.

Dywed yr adnodau yn Eseia fod y goleuni wedi dod, “Achos mae plentyn wedi cael ei eni i ni.” Yn y plentyn hwn fe ddaeth goleuni sy’n delio gyda’r tywyllwch. Disgrifir y plentyn gyda phedwar teitl sy’n darlunio Duw, sef, “Strategydd rhyfeddol, y Duw arwrol, Tad yr oesoedd, Tywysog heddwch.” (Eseia 9:6) Oherwydd mae’r plentyn arbennig hwn a anwyd mewn gwendid a thlodi yn Dduw ac yn ddyn. Mae Ef wedi dod yn oleuni i drechu’r tywyllwch sydd wedi cau amdanom fel dynoliaeth.

“Daeth Crist i’n byd o llawenhawn.”

Pan fu farw Iesu ar y groes dros ein pechodau daeth tywyllwch trwy’r wlad i gyd (Math. 27: 45) Aeth Goleuni’r Byd i ganol y tywyllwch er mwyn dod a goleuni hardd cariad a chyfiawnder Duw inni. (1 Pedr 2:9)

Ni allwn ddeall arwyddocâd y Nadolig heb inni yn gyntaf sylweddoli na allwn achub ein hunain nac adnabod ein hunain heb oleuni gras Duw yn Iesu. Dyma’r gwirionedd sylfaenol sy’n allwedd i ddeall arwyddocâd tragwyddol Y Nadolig.

**Gweddi ar Ddechrau’r Adfent:**

Erbyn hyn, ein Tad, yr ydym yn dechrau meddwl am y Nadolig. Anrhegion a chardiau, addurniadau a dramâu’r geni, paratoadau yn y cartref, y capel, yr eglwys a’r ysgol: edrychwn ymlaen oherwydd y mae hyn i gyd yn dwyn hapusrwydd arbennig. Wrth i ni gael ein hatgoffa am enedigaeth Iesu, cymorth ni i ddeall yr hyn a wnawn, ac i weld pwysigrwydd yr hyn sydd y tu ôl i’n gweithgareddau a’n paratoadau. Boed i ni fod yn barod i groesawu’r Nadolig pan ddaw, fel y cofiwn enedigaeth Iesu gyda diolchgarwch mawr, gan glywed eto neges dy gariad; Haleliwia! Amen.

***R. Chapman a D. Hilton***




**Cylchgronau - O**s hoffech gael copi o’r *Tyst* cysylltwch gydag Alison Jones. Os hoffech gael copi o’r *Cristion* cysylltwch gydag Arwel Williams ac os hoffech gael copi o fyfyrdodau *Gair y Dydd* cysylltwch gyda Petra Bennett. Os hoffech gael copi o’r Dinesydd cysylltwch gyda Gwilym Dafydd.

# NEWYDDION

**Cyfarchion yr Ŵyl**
Os nad ydych am anfon cardiau Nadolig eleni, beth am roi cyfarchion Nadoligaidd i'w gosod ar y sleidiau Powerpoints cyn yr oedfaon ym mis Rhagfyr? Yna gallwch roi cyfraniad tuag at elusen Tir Dewi. Rhowch eich cyfarchion i Tudur neu Alun.

**Cyfarchion**
Nadolig Llawen a Dymuniadau Gorau i'r Flwyddyn Newydd i'n ffrindiau yn Ebeneser.
Eynon a Delyth

Ynghanol y gwledda,
Ynghanol yr hwyl,
Rhown ennyd i gofio
Gwir ystyr yr Ŵyl.
Tangnefedd dros Ŵyl y Nadolig a Blwyddyn Newydd llawn Bendithion.
Cyfarchion cynnes iawn Malcolm a Jean.

**Pen-blwydd** hapus iawn i Eynon Williams, wrth iddo ddathlu carreg filltir arbennig fis Rhagfyr.

**Llongyfarchiadau** i Catrin Wooler, sydd wedi cwblhau taith gerdded estynedig ym Mhatagonia yn ystod mis Tachwedd, er cof am ei diweddar ŵr Dave a'i mam Freda. Mae Catrin wedi codi dros £5,000 tuag at elusen Marie Curie. Edrychwn ymlaen at glywed peth o'r hanes.

**Cleifion**
Cofiwn am Helen Hilling sy'n parhau i dderbyn triniaeth.

Cofiwn am y rhai hynny sy'n gaeth i'w cartref neu i gartref gofal: Rosaline Bowen, Beti Pierce, Mair Bennett, Delor Wedlake, Hazel Doull, Rhiannon Jones, Mair Evans.

Cofiwch weddïo drostynt a chodi'r ffôn am sgwrs.

**OCC**
Diolch i bawb lanwodd focs ar gyfer apêl Operation Christmas Child. Cludwyd 18 bocs i'r ganolfan gasglu yn Sblot. Mae'r cynllun hwn yn dod ac ychydig o lawenydd i blant anghenus ar hyd a lled y byd.

**Canolfan glyd**
Gyda'r wasgfa economaidd yn effeithio ar lawer y mae Tabernacl yr Ais yn bwriadu agor y capel o 2 - 5 pob pnawn Sul er mwyn i unrhyw un daro heibio. Maent yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu yn achlysurol. Os hoffech gynorthwyo cysylltwch gydag Enfys Harding neu Alun Tudur.

**Caffi Roundabout**
Mae'r eglwys Fethodistiaid, yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu yn eu caffi yn yr Eglwys Newydd. Os oes gennych ddiddordeb helpu cysylltwch gyda Gwenda neu Alun.

# NEWYDDION DA'R NADOLIG



*Darllena 1 Timotheus, pennod 2, adnod 5*

Mae'r holl Nadolig yn ymwneud â newyddion da. Ond nid newyddion da am anrhegion arbennig yw e. Nid newyddion da am bryd arbennig yw e. Nid hyd yn oed newyddion da am dreulio amser gyda theulu a ffrindiau yw e. Newyddion Da am gariad Duw yw'r Nadolig.
Mae'r Beibl yn dweud ein bod ar goll heb Dduw. Dŷn ni'n ddi-gyfeiriad. Does gennym ddim amddiffyniad. Mae ein heffaith dragwyddol bosibl ar y byd heb ei gwireddu. Dŷn ni heb lawenydd go iawn. Nid yw ein tragwyddoldeb yn y Nefoedd yn ddiogel.

Y Newyddion Da am y Nadolig yw bod Duw wedi anfon Iesu i ddod o hyd i ac achub y colledig. Mae'r Beibl yn dweud, "Mae am iddyn nhw ddeall mai un Duw sydd, ac mai dim ond un person sy'n gallu pontio'r gagendor rhwng Duw a phobl. Iesu'r Meseia ydy hwnnw, ac roedd e'n ddyn" (1 Timotheus, pennod 2, adnod 5 beibl.net).

Os wyt ti wedi treulio amser yn yr eglwys rwyt ti'n debygol o fod wedi clywed y Gair "iachawdwriaeth" sawl gwaith. Ond falle nad wyt ti'n deall beth yw ei ystyr. Mae'r gair fel diemwnt, rwyt yn gallu edrych arno o sawl cyfeiriad.

• Daeth Iesu i'n hachub. Dŷn ni ddim yn gallu datrys ein holl broblemau ein hunain. Heb Iesu dŷn ni wedi ein trapio yn nisgwyliadau eraill. Dŷn ni wedi ein trapio'n byw am gymeradwyaeth ein cyfoedion. Dŷn ni wedi ein trapio gan ddibyniaethau. Dŷn ni wedi trio newid dro ôl tro, ond does gynnon ni mo'r pŵer i ddianc. Daeth Iesu i roi i ni'r pŵer hwnnw.

• Daeth Iesu i'n hadfer. Dŷn ni i gyd yn hiraethu i adfer rhannau o'n

bywyd sydd wedi'u colli. Heb Grist, dŷn ni'n hiraethu i adfer ein nerth, ein hyder, ein henw da, ein diniweidrwydd, a'n perthynas â Duw. Dim ond Iesu all wneud hynny.

• Daeth Iesu i'n hailgysylltu. Mae llawer o bobl yn meddwl y bydd Duw'n eu cosbi os down nhw nôl ato. Ond dydy Duw ddim yn flin hefo ti. Mae e'n ysu i'th gael yn ôl. Daeth Iesu i'r byd ar y Nadolig cyntaf i'n hailgymodi â Duw, a rho i ni harmoni ag e o'r newydd.



• Daeth Iesu i'w roi ei hun yn rhodd i ni. Mae llawer gormod ohonom yn dathlu ei ben-blwydd heb ei rodd rhad ac am ddim o iachawdwriaeth. Blwyddyn ar ôl blwyddyn dydy'r rhodd hwn ddim yn cael ei agor. Dydy hynny ddim o unrhyw fudd! Cefaist dy wneud gan Dduw ac er mwyn Duw. Nes y byddi'n deall hynny, bydd bywyd ddim yn gwneud unrhyw synnwyr.

Y Nadolig hwn, agora'r rhodd bwysicaf rwyt wedi'i gael erioed: perthynas newydd gyda Duw drwy Iesu.

*Awdur gwreiddiol: Rick Warren (cyf. Tudur Jones)*
*Defnyddiwyd trwy ganiatâd You Version*

---

## Ymddiriedolwyr

Ar ddechrau mis Tachwedd cynhaliwyd Cwrdd Eglwys er mwyn trafod newid yn ymddidiriedolwyr yr eglwys. Cysylltwyd gyda'r holl ymddiriedolwyr i holi a fyddent am barhau. Mynegodd rhai ohonynt eu hawydd i gael eu rhyddhau o'r cyfrifoldeb sef Eira Jones, Elwyn Moseley, Gethin Leiws, Iwan Morris, Megan Williams a Wyn Davies. Hoffem ddiolch yn fawr iawn iddynt am eu gwasanaeth dros y blynyddoedd. Cynnigiwyd a phleidleisiwyd mai'r chwech canlynol fydd yn gweithredu o hyn ymlaen fel Ymddiriedolwyr yr Eglwys a'r Mans, sef Malcolm Thomas, Eynon Williams, Gwenda Lewis, Helen Thomas, John Hayes ac Eilir Jones.

# GAIR GAN Y GWEINIDOG

**B**raf iawn yw cael cyflwyno rhifyn arbennig Nadoligaidd o’r Llusern i chi. Ein bwriad pennaf wrth ei gynhyrchu yw eich arwain at Iesu'r Meseia ac i gael eich gwefreiddio o’r newydd gan yr hyn a ddigwyddodd trwy ei enedigaeth. Rhaid cydnabod fod dylanwad y byd anghrediniol yn drwm iawn arnom. Deuwn yn ddyddiol o dan ddylanwad llif di-dor o wybodaeth seciwlar anghristnogol sy’n tanseilio ein ffydd. Ac yr ydym yn ddigon parod i roi amser i’r llif hwn ac yn gyndyn i roi amser i dyfu fel disgyblion i’r Arglwydd. O ganlyniad rhwydd yw i’n cariad at yr Arglwydd farweiddio, ein hymlyniad wrtho bylu ac i’n hymrwymiad i’w waith ddarfod.

## YMADNEWYDDU

Mae’r Nadolig yn gyfle inni ymadnewyddu yn ysbrydol, trwy sylweddoli pa mor aruthrol bwysig yw arwyddocâd y ffaith bod Iesu wedi dod i’r byd. Ynddo Ef daeth Duw i’n plith. Rhyfeddod yr oesoedd yw bod Iesu yn Dduw ac yn ddyn a thrwy ei enedigaeth wyrthiol, ei fywyd, ei farwolaeth aberthol ar y groes a’i atgyfodiad y mae Duw wedi paratoi ffordd i’n cymodi ac i ddod a’i Deyrnas i’r byd. Daeth yn llawn gras, cariad, gogoniant a goleuni i ganol ein tywyllwch.  Wrth edrych ar y newyddion dyddiol sylweddolwn - er honiadau balch rhai - nad yw dynoliaeth yn datblygu er gwell. Yn y byd mae anghyfiawnder, tlodi, creulondeb, rhyfel ac anobaith yn parhau. Ond y mae Duw yn yr Iesu wedi dod a “newyddion da ” i bawb ohonom.




Yn ystod tymor yr Adfent yn Ebeneser y mae cyfle i ni gadarnhau ein ffydd trwy fyfyrio ar Iesu’r Meseia, addoli gyda’n gilydd, canu carolau a gwrando ar air Duw yn cyhoeddi fod Gwaredwr bendigedig wedi dod i’n plith. Dewch i ymuno gyda ni i lawenhau.

Nadolig Llawen i bawb ohonoch a blwyddyn newydd da. **Alun Tudur**

# FFARWELIO

Cawsom gyfle yn yr oedfa ar bnawn Sul yr 20fed o Dachwedd i ffarwelio gyda Beti Wyn Davies ac i ddiolch iddi am ei chyfraniad i fywyd eglwys Ebeneser tros y degawdau y bu hi a'i diweddar ŵr Denzil yn aelodau. Mae Beti wedi penderfynu symud i fod yn nes at y plant a'u teuluoedd yn Southampton. Dywedodd y gweinidog,

"Mae eich cyfraniad, eich ffyddloneb a'ch haelioni fel teulu, wedi bod yn fawr i fywyd Ebeneser, mewn cymaint o ffyrdd trwy gyfnod Emlyn Jenkins, Geraint Tudur a finnau. Mae'r croeso fu ar eich haelwyd yn y Bari yn chwedlonol, yn rhoi llety a bwyd i ffrindiau a gweinidogion. Diolchwn i Dduw amdanoch gan ddymuno pob bendith i chi yn eich cartref newydd."

Yn dilyn yr oedfa fe gafwyd dishgled a chacennau yn y caffi. Diolch o galon i Gill Lewis am drefnu a choginio.



## "Gogoniant yn y Goruchaf"

*Rhoddwn iddo'r gogoniant,*
*Arglwydd y greadigaeth,*
*a dyfnder diderfyn ein bod a'n byw,*
*am iddo osod sêr y bore*
*yn llachar uwch tywyll fyd,*
*a'r un seren loyw*
*i ddangos i ddoethion eu ffordd.*

*Rhoddwn iddo'r gogoniant,*
*Rhagluniwr yr heddwch dwfn*
*a Lluniwr y waredigaeth,*
*am iddo roi cyfoeth mewn llety Ilwm*
*ac anfeidroldeb mewn preseb bach,*
*nes tynnu bugeiliaid y paith*
*i ryfeddu a phenlinio.*

*Rhoddwn iddo'r gogoniant,*
*Tywysydd yr amseroedd*
*a Pharatőwr y gwyrthiau,*
*am iddo ddeffro'r gân*
*ar y bryniau hen,*
*a dwyn y gobaith i galonnau,*
*am fod sypyn y gwely gwair*
*yn ddwyfoldeb i gyd.*

*Rhoddwn iddo'r gogoniant,*
*Y Gair uwchlaw'r geiriau,*
*a'r ystyr sy'n galon i'r cread,*
*am iddo roi lliw ar berthi*
*a harddwch ar goed,*
*a'r perffeithrwydd tragwyddol*
*mewn baban bach.*

*Rhoddwn iddo'r gogoniant*
*am Dywysog tangnefedd,*
*ac am ewyllys dda ei Nadolig Ef.*

***W. Rhys Nicholas***

# NOSON GYRI

Fe gafodd bawb lond bol – mewn ffordd dda – ym mwyty Indiaidd yr Emipre, Albany Road ar nos Fawrth 22 o Dachwedd. Yno, fe gynhaliwyd digwyddiad cymdeithasol er mwyn codi rhagor o arian tuag at ein helusen am eleni sef Tir Dewi. Daeth criw da at ei gilydd ac fe gafwyd gwledd o fwyd danteithiol a llawer iawn o hwyl. Llwyddwyd i godi £227. Diolch i bawb fu'n rhan o'r trefnu ac i Sami a'i dîm yn yr Empire am y croeso ar bwyd blasus.



Cofiwch y byddwn yn fuan yn casglu'r bocsus "cadw mi gei" i gloi ein blwyddyn o godi arian tros yr elusen hon.

Clywsom fod Undeb yr Annibynwyr yn cynnal apêl arbennig yn 2023 mewn cyd-weithrediad â Chymorth Cristnogol. Canolbwynt yr apêl fydd Columbia yn Ne America. Daw rhagor o wybodaeth i law toc.

---

# CLWB SÊR

Mae Clwb Sêr wedi bod yn cyfarfod bob bore Sul yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd ac rydym yn ceisio annog rhagor o deuluoedd i ymuno gyda ni yn gyson. Er rhaid cyfaddef fod hynny yn dalcen caled ar hyn o bryd. Hoffem eich annog i weddïo dros y gwaith hanfodol hwn ym mywyd eglwys Ebeneser gan ofyn i'r Arglwydd roi ar galon rhieni i ddod a'u plant i ddysgu am Iesu.

Diolchwn yn fawr iawn i'r tîm ffyddlon sydd wrthi yn paratoi a dysgu'r plant o fis i fis am eu hymroddiad.

**ODID**

Y mae astudiaeth Feiblaidd ODID yn parhau i gyfarfod ac o'r diwedd rydym yn mynd o dŷ i dŷ. Cynhelir y cyfarfodydd nesaf - os Duw a'i myn - ar Ragfyr 13. Ionawr 17, 31 a Chwefror 14. Yn y cyfarfodydd hyn byddwn yn dilyn y gyfres hon gan Tim Keller, "*The Prodigal God: Finding Your Place at the Table*." Dewch i fod yn rhan o'r drafodaeth.


NADOLIG
Ebeneser
11/12
10.00 - Oedfa Nadolig anffurfiol
3.00 - Oedfa Adfent o dan arweiniad yr aelodau
4.30 - Oedfa Nadolig Angor Grangetown
18/12
10.00 - Llanllanast Nadolig bob oed
6.30 - Oedfa Garolau ddwyieithog
25/12
9.30 - Gwasanaeth teuluol yng nghapel y Methodistiaid.


Angor Grangetown
GWASANAETH NADOLIG
11 Rhagfyr
4.30pm
Crefftau
Carolau
Bwyd & Diod
Canolfan Reach
#carugrangetown

## Gwasanaethau ar CD

**O**s hoffech gael copi o'r gwasanaethau ar y Sul ar CD wedi ei bostio i'ch cartref cysylltwch gyda Carys Mair Jones ar 07824 337251.

## DILLAD A BWYD

**M**ae elusen Enfys Gobaith yn ddiolchgar iawn o'r bwyd a'r dillad yr ydych wedi eu cyfrannu yn ystod y misoedd diwethaf. Maent yn cael eu rhoi yn gyson i'r anghenus yma yng Nghaerdydd. Diolch i chi am eich haelioni.

**Byddwn yn casglu bwydydd sychion yn ystod yr wythnos gyntaf lawn o bob mis.**

Os hoffech gyfrannu, tuniau llysiau, ffrwythau, cig, pysgod, cawl, ffa ayyb; pasta, reis, te, coffi, llaeth UHT byddem yn dra diolchgar. Cysylltwch gyda Tudur Jones er mwyn trefnu casglu.

**Paradise Run -** Y mae elusen Enfys Gobaith am ailgychwyn y Paradise Run fydd yn bwydo'r digartref yng nghanol dinas Caerdydd pob nos am 8.00 yh. Mae Ebeneser yn codi tîm i helpu ar nos Sul 1 waith pob 4 wythnos. Os gallwch chi helpu anfonwch destun at Alun ar 07814 536208

**Recordiadau -** Gellir gwrando ar holl bregethau Ebeneser ar wefan Soundcloud. Maent yn cael eu gosod yno'n wythnosol. Diolch i Tudur.Gellir gwylio ffrwd byw o oedfa bore Ebeneser ar ein tudalen Facebook ac yna ar Youtube. Diolch yn fawr iawn i Ryan Jones am ei help.

**Tîm Digidol -** Rydym yn chwilio am aelodau i helpu gydag ochr ddigidol bywyd Ebeneser. Bellach yn wythnosol y mae elfennau digidol sydd yn rhan bwysig o'n gwaith a'n tystiolaeth. E.e., PowerPoints, ffrwd byw, podlediad, Youtube, Trydar (Twitter), Gweplyfr (Facebook), cryno ddisgiau o'r oedfaon a'r wefan.

**Gosod a Gofal -** Hoffem ddiolch i'r holl aelodau sydd wedi cynorthwyo gyda gosod popeth yn ei le ar fore Sul a hefyd gyda gweithredu rheolau hylendid COVID-19. Mae wedi golygu llawer o waith ychwanegol. Diolch i Eynon am baratoi'r rota ac i Tudur am ei holl help.

## CYFRANIADAU

**Diolch yn fawr iawn i bawb ohonoch sydd wedi anfon cyfraniadau at waith Eglwys Ebeneser. Bellach mae'r Adroddiad Blynyddol 2021 yr eglwys wedi ei bostio at yr holl aelodau. Diolch i bawb fu wrthi'n paratoi yr Adroddiad ac i Eilir am ei holl waith.**

Mae nifer o aelodau bellach yn cyfrannu'n fisol trwy archeb banc. Os nad ydych eto wedi cael cyfle i gyfrannu hoffem eich gwahodd i barhau i gyfrannu at waith yr eglwys, un ai:

Trwy siec yn daladwy i Eglwys Ebeneser Caerdydd, at y Trysorydd, Eilir Jones, 9 Clos y Bryn, Caerdydd. CF14 6TR. Neu, taliad yn uniongyrchol i gyfrif banc HSBC yr Eglwys – cod sortio 40-16-35, rhif y cyfrif 81042882, gan nodi eich enw fel cyfeirnod. Gyda diolch o flaen llaw am eich haelioni.

## Calendr

*Cynhelir oedfa'r bore yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd, Old Church Rd, CF14 1AD
*Cynhelir oedfa'r pnawn yng nghapel y Methodistiaid, Penlline Rd, CF14 2AA
*Cynhelir **Angor** yn Reach Centre, Avondale Street, Grangetown, CF11 7DT
7.30 - Pob nos Lun, cynhelir y **cwrdd gweddi** yng nghapel y Methodistiaid ac ar Zoom. Dolen yn yr e-bost wythnosol.
7.30 - Pob pythefnos, ar nos Fawrth, cynhelir **Astudiaeth Feiblaidd, ODID** o dŷ i dŷ ac ar Zoom. Dolen yn yr e-bost wythnosol.

## Rhagfyr

**04 Dydd Sul.** Oedfaon o dan arweiniad Alun. 10.00 – Mawl yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd a Clwb Sêr. 3.00 - Oedfa gymun yng nghapel y Methodistiaid, 7.30 – Angor Grangetown*
**11 Dydd Sul.** 10.00 - Oedfaon Nadolig yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd a Clwb Sêr. 3.00 Oedfa Nadolig yng nghapel y Methodistiaid. 4.30 – Angor Grangetown. Cyfarfod Nadolig arbennig gyda'r band mawl Adlais.
**15 7.30** – Angor Grangetown- Noson Garolau yn y Grange Pavilion. Mae gwahoddiad i bawb ymuno.
**18 Dydd Sul.** 10.00 - Llanllanast Nadoligaidd ar gyfer pob oed yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. [D.S.Ni fydd oedfa am 3.00 yp] 6.30 - Oedfa garolau ddwyieithog gyda'r eglwys Fethodistaidd.
**25 Dydd Nadolig** – 9.30 – Oedfa deuluol yng nghapel y Methodistiaid yr Eglwys Newydd.

## Ionawr

**01 Dydd Sul.** 10.00 – Oedfa dechrau'r flwyddyn yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd o dan arweiniad Alun. Ni fydd ail oedfa.




ANGOR GRANGETOWN
Noson
Garolau
Grangetown
Rhagfyr 15 I 7.30pm
Grange Pavilion